

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Trefor Jones (Cefn Meiriadog) a Harold Pierce (Llanefydd) – y ddau yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Diolchwn amdanynt, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd. Erbyn hyn, mae Heulwen Roberts (Henllan) a Menna Owen (Cefn Meiriadog) wedi symud i'r Inffirmari. Bu Menna yn Ysbyty Glan Clwyd am rai misoedd a diolchwn am y gofal arbennig a gafodd yno ac am y modd y bu i'r Arglwydd gynnal Meurig, ei phriod, a hithau ar hyd yr amser. Mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd hefyd. Cyflwynwn hwy oll i ofal tyner ein Duw a gweddiwn am adferiad iechyd buan iawn iddynt oll.
- Llongyfarchiadau calonnog i Betsan Roberts (Llanefydd) a Huw ar eu dyweddiad.

Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2012

Erbyn hyn mae manylion gwaith cwrs yr Ysgolion Sul wedi dod i law. Bydd angen i'r cyweithiau fod yn barod **erbyn Ebrill 16eg** a bydd gwasanaeth byr i gyflwyno'r tystysgrifau **nos Wener, Mai 11eg** yn Llanefydd, gydag adloniant i ddilyn gan griw Coleg y Bala, a lluniaeth ysgafn i ddiweddu'r noson.

Y dasg a osodwyd i'r plant a'r ieuencid eleni yw cywaith unrhyw gyfrwng ar y thema 'Stori Duw'. Gofynnir am gywaith gyda'r holl blant wedi cyfrannu ato mewn unrhyw gyfrwng, e.e. gwaith ymchwil, ysgrifennu stori, dramodig, poster, gweddi, sgwrs ar dâp, strïbed cartwn, cyflwyniad PowerPoint. Mae'r oedran yn agored.

Ar gyfer yr oedolion, gofynnir am unrhyw gyflwyniad i gyfleu'r trafodaethau a'ch ymateb yn eich gwersi Ysgol Sul. Os yn cyflwyno traethawd, dylid cyfyngu i ddim mwy na 1,000 o eiriau. Gellir cyflwyno gwaith llaw neu arddangosfa flodau. Os am gyflwyno arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r gosodiad ar y noson wobrwyo yn unig a gadael i Alys Owen (816231), yr ysgrifennydd, wybod ymlaen llaw er mwyn cael rhoi eich enwau yn yr adroddiad.

Bydd mwy o fanylion gan Arolygwr eich Ysgol Sul. Hwyl i bawb ar y paratoi!

I ddod

- **Cyflymu at y Nod** – Yr ail o'r cyfarfodydd i [holl flaenoriaid y Fro ac i unrhyw un arall sydd â diddordeb](#) i ddod i ddeall mwy am weledigaeth y Fro a gwaith yr eglwys, nos Fawrth, Chwefror 28ain yng Nghapel Henllan am 7.30.
- **LLANW** - Gŵyl deuluol yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg ar gyfer Cristnogion led-led Cymru – plant, ieuencid, teuluoedd, myfyrwyr, pobl sengl a pharau o bob oed! Mwy o fanylion ar y wefan www.llanw.org neu drwy holi Rhodri.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Chwefror 2012

Cofiwch am Gyfarfod Chwirydd Eglwysi Bro Aled yn Llanefydd nos Fawrth am 7.00 yng nghwmni Dr Mari Lloyd Williams.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Diolch am gael cyfle newydd i addoli'r Arglwydd hefo'n gilydd ac am y cyfle newydd a gawn heddiw i ddod o dan awdurdod ei air. Y mae Duw mor ddoeth! Fedrwn ni ddim adnabod Duw trwy ein doethineb ein hunain ond y mae Duw wedi trefnu mai trwy "ffolineb yr hyn yr ydym yn ei bregethu" (1 Corinthiaid 1:18-25) yr achubir 'y rhai sydd yn credu'. Yr hyn sy'n ymddangos fel ffolineb – "Crist wedi ei groeshoelio" - yw'r hyn yr ydym yn ei bregethu! Yn y weithred ryfeddol yma ar Galfaria y mae holl ddoethineb Duw yn disgleirio fel yr haul! Mae'n iawn i ni ymddiried yn yr Iesu, er ei bod hi mor anodd gollwng gafael arnom ein hunain. Mae doethineb a nerth mawr yn Iesu ac yn ei aberth iawnol drosom – digon i gyfarfod ein holl anghenion. Digon i guddio'n holl bechodau a digon i'n nerthu. Digon i'n cymodi â Duw! Mae gweld Calfaria, fel y mae Duw yn gweld Calfaria yn rhan hollol angenrheidiol o ddod i adnabod Duw a doethineb ei ewyllys ar ein cyfer!

Sôn am haul – mae wedi bod yn hyfryd gweld yr haul yr wythnos yma a themlo'i wres yn cryfhau. Daw'r gwanwyn ac fe ddaw bywyd newydd eto os Duw a'i myn. Tymhorau gras ydynt a phriodol iawn yw dod i'r oedfa i fynegi ein diolchgarwch.

Arwydd arall o ras yw y ffordd y mae'r Arglwydd wedi arwain Rhys Dafis a Dr Rhodri Glyn i dderbyn galwad i fod yn ddiaconiaid yn eglwys Annibynnol Hiraethog. Mae'n siŵr ein bod yn llawenhau gyda'r gynulleidfa ac yn diolch i Dduw am ei haelioni a'i rodd werthfawr i'r eglwys.

Mae Rhys a Sheila wedi cartrefu'n gyflym yn ein plith ac eisoes yn weithgar iawn. Cofiwch yn annwyl am gyfraniad urddasol rhieni Rhys – Elwyn a Morfudd Davies, Gogor Ganol, Llansannan gynt. Morfudd oedd yr unig wraig a godwyd yn flaenor gyda'r Presbyteriaid yng Nghapel Coffa Henry Rees, a hithau wedi ei magu yn Fedyddwraig a Rhys rwan yn ddiacôn hefo'r Annibynwyr! Mae'r cylch yn gyfan ac yn dangos nad yw gwahaniaethau enwadol yn cyfri pan ddaw yn fater o ymateb i'r alwad i wasanaethu Duw a byw i'r Un a fu ar y groes yn ein lle.

Mae Rhodri wedi ennill ei blwy yn rhwydd iawn yn ein plith hefyd. Mae ei gymeriad diymhongar a'i agwedd weithgar wedi ennill ein hedmygedd ac mae gwaith yr Arglwydd drwyddo yn yr Ofalaeth eisoes yn dwyn ffrwyth ym mywyd y plant a'r bobl ifanc a chynulleidfaoedd ein capeli. Diolchwn i Dduw am y ddau, a'u teuluoedd, a chroesawn y ddau fel cyd-weithwyr abl iawn. Gobeithio y cânt brofi o fendith yr Arglwydd wrth iddynt ei wasanaethu ac y caiff pob un ohonom fendith wrth gyd-addoli heddiw.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • Bydd **Chwirydd Eglwysi Bro Aled** yn cyfarfod yn Llanefydd am 7.00 gyda Dr Mari Lloyd Williams yn annerch. Thema ei sgwrs fydd "Creu Cymunedau sy'n dosturiol".
- Mercher • **Dod i Adnabod – Grŵp Rhodri** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.
- **Grwpiau Tai Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30
- **Adnabod Be Nesa?** yn y Granar yn Llansannan am 7.30 i'r criw gafodd eu derbyn yn aelodau yn ddiweddar a ieuencid 15+.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Gwener Bydd Cymdeithas Llansannan yn cynnal Noson o Ddramau yn y Ganolfan am 7.30.
- Sul nesaf Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwirydd yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda'r plant yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa undebol Gŵyl Ddewi i'r daith yn Henllan am 2.00. Croeso i bawb aros am banded ar ôl yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Iau Bydd Cymdeithas Capel Cefn Berain yn cynnal Noson o Ddramau hwyliog gyda Chwmni Drama Uwchaled yn Neuadd Llanefydd am 7.30. Pris mynediad: oedolion £4, plant £1. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau